Hawdd ei Ddeall

## Cronfa'r Rhaglen Gyfalaf

# Help â'ch cais am arian o'r gronfa



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Nodiadau Cymorth i Ymgeisio am Arian: Rhaglen Gyfalaf y Lotri**'.

**Tachwedd 2021**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 28**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, bydd hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** cyfalaf@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Ynglŷn â'r ddogfen hon....................................................................4**

**Y broses o wneud cais.....................................................................5**

**Beth i'w wneud cyn i chi ymgeisio.......................................................6**

**Y pethau y bydd arnon ni angen eu gwybod...........................................7**

**Sut i gael mwy o help.....................................................................27**

**Geiriau anodd...............................................................................28**

# Ynglŷn â'r ddogfen hon





Bydd y ddogfen hon yn eich helpu i wneud cais am y **Rhaglen Gyfalaf.**




Mae'r **Rhaglen Gyfalaf** yn gronfa ar **gyfer** mudiadau celfyddyd Cymru.

Mae **cronfa** yn arian y gall mudiadau ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.




Dylech chi hefyd ddarllen **Y Rhaglen Gyfalaf – Gwybodaeth am gronfa'r Rhaglen Gyfalaf.** A'n **Strategaeth Gyfalaf 2012-2017**.




Bydd y dogfennau hyn yn dweud wrthych chi am ein cynlluniau. A sut y mae arnon ni eisiau i'n **cronfa** gael ei ddefnyddio.




Hefyd y mae gennym ni wybodaeth ddiweddar ar ein gwefan: arts.wales/cy/ariannu

# Ynglŷn â'r broses o wneud cais



Yn gyntaf mae arnoch chi angen cofrestru i ddefnyddio ein porth ar-lein. Cofrestrwch trwy glicio yma: [portal.arts.wales](portal.arts.wales)




Yna gallwch chi wneud cais am y **Rhaglen Gyfalaf** gan ddefnyddio'r porth ar-lein.



Os oes arnoch chi angen help, cysylltwch â ni yn [grants@art.wales](mailto:grants@art.wales)



Byddwn yn gadael i chi wybod pan fydd eich cais wedi cyrraedd.




Byddwn yn gadael i chi wybod a yw eich prosiect yn cyd-fynd â'n cynlluniau. Ac a oes unrhyw beth ar goll.



Os yw eich prosiect yn cyd-fynd â'n cynlluniau, byddwn wedyn yn penderfynu a allwn ni roi arian o'r **gronfa** ar ei gyfer.

# Beth i’w wneud cyn i chi wneud cais


Casglwch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi. Mae hyn yn cynnwys:




- manylion cyswllt eich mudiad





- gwybodaeth eich mudiad am **gydraddoldeb**




- eich cynllun ysgrifenedig am eich prosiect



- cyllideb eich prosiect. Mae’n rhaid i hon fod ar ein **patrymlun cyllideb prosiect**. Gallwch ddod o hyd i’r patrymlun hwn ar ein gwefan



- unrhyw ddogfennau eraill y mae arnoch chi angen eu dangos i ni.

# Y pethau y bydd arnon ni angen eu gwybod

Pan fydd popeth yn barod gennych chi, gallwch wneud cais. Mae **22 o adrannau** yn y ffurflen gais:



## 1. Gwiriadau cyn gwneud cais

Mae hyn yn cynnwys cyflwyniad a rhestr wirio.




## 2. Cysylltu â chi

Dywedwch wrthyn ni sut y gallwn ni gysylltu â chi. A manylion eich banc.



## 3. Ynglŷn â'ch prosiect

Dywedwch wrthyn ni am eich prosiect. A'r pethau y mae arnoch chi eisiau defnyddio'r **gronfa** ar ei chyfer.

# 4. Pethau pwysig y prosiect



Defnyddiwch y bocs ticio i ddewis y **math o gais** rydych chi'n ei wneud. A'r **blaenoriaethau** o ran cael **arian o'r gronfa**.




Y **blaenoriaethau** yw'r pethau mwyaf pwysig.



Bydd y math o gais yn dweud wrthyn ni pa gronfa y mae arnoch chi eisiau gwneud cais amdani. Bydd y blaenoriaethau o ran cael arian o'r gronfa yn dweud wrthyn ni sut y mae eich prosiect yn cyd-fynd â'n cynlluniau.




Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ein blaenoriaethau trwy ddarllen **Y Rhaglen Gyfalaf – Gwybodaeth am gronfa'r Rhaglen Gyfalaf**. A thrwy ddarllen ein **Strategaeth Gyfalaf 2012-2017**.

# 5. Arweiniad ynghylch bwriad y prosiect



Bydd **bwriad** eich **prosiect** yn ein helpu i benderfynu a fyddwn ni'n rhoi arian o'r **gronfa** ar gyfer eich prosiect.

Dylai **bwriad eich prosiect** ddweud wrthyn ni:



- sut y byddwch chi'n cwrdd ag angen




- sut y byddwch chi'n cyflawni prosiect o safon uchel



- sut y bydd eich prosiect yn helpu pobl




- sut y byddwch chi'n gwneud eich prosiect yn **hygyrch** a hawdd ei ddeall.

> Mae **hygyrch** yn meddwl ei bod hi'n hawdd mynd i rywle. Ac i symud o gwmpas o un lle i'r llall.



- pa mor gryf yw eich mudiad



- sut y byddwch chi'n cynllunio ac yn rheoli eich prosiect



- sut y byddwch chi'n gwneud y prosiect yn llwyddiannus



- sut y byddwch chi'n delio ag unrhyw broblemau.

Byddwn yn egluro mwy am beth i'w gynnwys yn yr adran nesaf.

## 6. Sut y byddwch chi'n cwrdd ag angen



Dywedwch wrthyn ni am eich prosiect a pham y mae arnoch chi eisiau ei wneud.



Dywedwch wrthyn ni am yr offer y mae arnoch chi eisiau eu prynu. A beth y byddwch chi'n ei wneud â'r offer.



Neu dywedwch wrthyn ni am yr adeilad y mae arnoch chi eisiau gweithio arno.



Dywedwch wrthyn ni sut y bydd eich prosiect yn gwneud pethau'n well.



Dywedwch wrthyn ni sut rydych chi'n gwybod bod y prosiect yn angenrheidiol. Dywedwch wrthyn ni pwy arall y byddwch chi'n gweithio gyda nhw.

## 7. Sut y byddwch chi'n cyflawni prosiect o safon uchel




Dywedwch wrthyn ni beth yw amcan eich prosiect.



Dangoswch i ni sut rydych chi wedi meddwl yn ofalus am yr holl brosiect. A sut y byddwch chi'n cyrraedd safon uchel.



Dywedwch wrthyn ni sut y byddwch chi'n amddiffyn yr **amgylchedd** yn ystod eich prosiect. Yn awr ac yn y dyfodol.

Yr **amgylchedd** yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid, a physgod.



Dywedwch wrthyn ni am yr offer y mae arnoch chi eisiau eu prynu. A pham mai hwn yw'r dewis gorau.



Dywedwch wrthyn ni sut y gwnaethoch chi benderfynu pwy i weithio gyda nhw ar eich prosiect.




Pan fyddwch chi'n prynu nwyddau neu wasanaethau ar gyfer busnes, mae'n rhaid i chi ddilyn y gyfraith. Dangoswch i ni sut rydych chi wedi gwneud hyn.

## 8. Sut y bydd eich prosiect yn helpu pobl



Dywedwch wrthyn ni sut y bydd eich prosiect yn helpu pobl yng Nghymru. Yn awr ac yn y dyfodol.



Dywedwch wrthyn ni pwy y bydd eich prosiect yn eu helpu. A sut y bydd yn helpu. Er enghraifft, artistiaid. Neu bobl sydd ddim fel arfer yn mwynhau'r celfyddydau.




Dywedwch wrthyn ni sut y byddwch chi'n gwneud eich prosiect yn **gynhwysol**.

Mae **cynhwysol** yn meddwl y gall bawb gymryd rhan, a bod pawb yn cael cyfle teg.



Dywedwch wrthyn ni sut y bydd eich prosiect yn dda ar gyfer celfyddydau Cymru.




Dywedwch wrthyn ni sut y bydd eich prosiect yn cyd-fynd â'n cynlluniau.



Dywedwch wrthyn ni sut rydych chi'n bwriadu gadael i bobl wybod am eich prosiect.

# 9. Sut y byddwch chi'n gwneud eich prosiect yn hygyrch




Dangoswch i ni sut y mae eich prosiect yn dilyn y gyfraith. Er enghraifft, **Deddf Cydraddoldeb**.




Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi wedi'i wneud i weld a yw eich prosiect yn gwbl **hygyrch**.



Dywedwch wrthyn ni sut rydych chi wedi gwneud eich prosiect yn **hygyrch** ar gyfer cymaint o bobl â phosibl. Mae hyn yn cynnwys staff a'r cyhoedd.



Dywedwch wrthyn ni sut rydych chi wedi ystyried anghenion pobl anabl.

# 10. Pa mor gryf yw eich mudiad



Dywedwch wrthyn ni am eich mudiad. Mae arnon ni eisiau gwybod sut rydych chi'n ei redeg. A faint o arian sydd ganddo.




Dangoswch holl gostau'r prosiect hwn i ni. A sut rydych chi'n bwriadu talu amdano i gyd.



Dywedwch wrthyn ni am yr holl bobl sy'n gweithio yn eich mudiad.




Dylai bod gan eich staff yr holl fedrau a'r profiad cymwys i redeg eich prosiect.



Os nad ydyn nhw, dywedwch wrthyn ni beth rydych chi wedi'i wneud i ddatrys hyn.




Dylai bod eich mudiad yn medru gwneud y prosiect hwn a dal i wneud eich gwaith arferol hefyd.




Dywedwch wrthyn ni sut y bydd eich prosiect yn gwneud eich mudiad yn well ac yn gryfach. Yn awr ac yn y dyfodol.



Dylech chi wneud yn siŵr y gall eich mudiad redeg prosiect yn llwyddiannus.




Chwiliwch am fwy o wybodaeth am redeg prosiect llwyddiannus yn **Y Rhaglen Gyfalaf – Cymorth â'ch cais ar gyfer prosiectau Cyfalaf Mawr.**

## 11. Sut y byddwch chi'n cynllunio ac yn rheoli eich prosiect



Dywedwch wrthyn ni sut y byddwch chi'n cynllunio ac yn rheoli eich prosiect.



Dywedwch wrthyn ni pwy fydd yn gweithio ar y prosiect. A sut y byddan nhw'n gwneud yn siŵr y bydd yn llwyddiannus.



Efallai y bydd arnoch chi angen cyflogi rhywun i redeg eich prosiect. Dywedwch wrthyn ni amdanyn nhw. A'r gwaith y byddan nhw'n ei wneud i chi.



Dywedwch wrthyn ni os ydych chi wedi gwneud prosiect fel hyn o'r blaen. A sut y bydd hyn yn eich helpu chi â'r prosiect hwn.



Dangoswch yr amserlen i ni ar gyfer eich prosiect.



Dangoswch yr holl gostau ar gyfer y prosiect. A sut rydych chi'n bwriadu talu am bopeth.




Os ydych chi'n gwneud **prosiect cyfalaf mawr**, bydd arnoch chi angen cychwyn **grŵp llywio** i'w redeg.



Mae **grŵp llywio** yn grŵp o bobl sy'n arbenigwyr ynghylch y pethau maen nhw'n siarad amdanyn nhw. Fel pobl anabl yn siarad am anableddau.



Dywedwch wrthyn ni am eich **grŵp llywio**. A sut y byddan nhw'n rhedeg y prosiect ac yn ei reoli.



Hawdd ei Ddeall

Cronfa'r Rhaglen Gyfalaf

Help â'ch cais Prosiectau Cyfalaf Mawr

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Nodiadau Canllaw Ychwanegol P osiec au Cy alaf Mawr**'.

**Tachwedd 2021**

Gallwch ddod o hyd i fwy am brosiectau cyfalaf mawr yn **Y Rhaglen Gyfalaf – Cymorth â'ch Cais am Gyfalaf Mawr.**


## 12. Sut y byddwch chi'n gwneud y prosiect yn llwyddiannus



Dylech chi ddefnyddio ein **Patrymlun Cyllideb Prosiect** i ysgrifennu eich holl gostau.



Dylech chi hefyd ysgrifennu faint o arian sydd gennych chi i'w wario. Er enghraifft, eich arian eich hun. Neu arian o **gronfa**.



Dylai eich costau a'r arian sydd gennych chi i'w wario fod yr un faint.



Gall gweithio costau fod yn anodd.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i lenwi’r **Patrymlun Cyllideb Prosiect**.



Mae’n rhaid i chi lanlwytho eich **Patrymlun Cyllideb Prosiect** gyda’ch cais.

## 13. Sut y byddwch chi’n delio ag unrhyw broblemau



Efallai y byddwch chi’n cael problemau yn ystod eich prosiect.



Fel eich arian yn dod i ben.



Neu rywun yn brifo.



Dylech chi feddwl am y pethau drwg allasai ddigwydd.




Ac yna wneud cynlluniau i'w hosgoi. Neu wella'r sefyllfa.



Mae'n rhaid i chi ddangos i ni eich bod wedi meddwl am broblemau. Ac atebion.

# 14. Manylion adeiladu


**Peidiwch â llenwi'r adran hon os ydych chi'n gwneud cais am offer.**



Dywedwch wrthyn ni am yr adeilad y mae arnoch chi eisiau arian o'r gronfa ar ei gyfer.




Mae'n rhaid i chi gael caniatâd i weithio ar yr adeilad hwnnw.



Dangoswch yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'ch adeilad i ni. Fel arolygon. A chaniatâd cynllunio.



Efallai bod gennych chi asbestos yn eich adeilad. Gall asbestos fod yn beryglus.




Gall **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** eich helpu i gadw pobl yn ddiogel. Chwiliwch am fwy o wybodaeth ar eu gwefan. [www.hse.gov.uk/asbestos/regulations.htm](http://www.hse.gov.uk/asbestos/regulations.htm)

## 15. Y celfyddydau



Dywedwch wrthyn ni am yr holl wahanol fathau o gelfyddydau fydd gennych chi yn eich prosiect. Fel theatr. Neu gerfluniau.

## 16. Nodau




Dywedwch wrthyn ni am y gwahanol weithgareddau fydd gennych chi yn eich prosiect.

## 17. Iaith




Dywedwch wrthyn ni a fydd y prosiect yn dda ar gyfer yr iaith Gymraeg.

## 18. Lleoliad



Dywedwch wrthyn ni ble y bydd eich prosiect yn cael ei wneud.

## 19. Cydraddoldebau




Mae **cydraddoldeb** yn bwysig i ni.

> Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg.



Dywedwch wrthyn ni sut rydych chi wedi ystyried **cydraddoldeb** yn eich prosiect.

## 20. Datganiad



Mae gwybodaeth bwysig yn yr adran hon. Dylech chi ei darllen yn ofalus.




Efallai bod peth gwybodaeth am eich prosiect yn gyfrinachol. Mae arnoch chi angen deall beth y byddwn ni'n ei wneud â'ch gwybodaeth.




Mae'n rhaid i ni ddilyn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Chwiliwch am fwy o wybodaeth yma: [www.gov.uk/government/publications/guide-to-the-general-data-protection-regulation](www.gov.uk/government/publications/guide-to-the-general-data-protection-regulation)




Dylech chi hefyd wybod am Ryddid Gwybodaeth. Chwiliwch am fwy o wybodaeth yma: www.gov.uk/make-a-freedom-of-information-request.




Bydd arnoch chi angen darllen rhai datganiadau yn yr adran hon. Ac yna ticio'r bocsys sydd wrth ymyl y datganiadau.




Wrth dicio'r bocsys, mae'n meddwl eich bod chi a'ch mudiad yn cytuno a'r datganiadau.

## 21. Lanlwythiadau



Yr adran hon yw'r man ble gallwch chi lanlwytho unrhyw ddogfennau y bydd arnon ni eisiau eu gweld.




Fel eich **patrymlun cyllideb prosiect**.



Neu ddogfennau am eich adeilad.




Mae’r dogfennau hyn yn cael eu galw’n **atodiadau**.


Hawdd ei Ddeall

Cronfa’r Rhaglen Gyfalaf

**Pa ddogfennau sydd eu hangen arnon ni ar gyfer y cais?**

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**
Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o Adran 21 o ‘**Nodiadau Cymorth i Ymgeisio am Arian: Rhaglen Gyfalaf y Lotri**’.


**Tachwedd 2021**

Mae’n rhaid i chi ddarllen **Y Rhaglen Gyfalaf – Dogfennau sydd eu hangen arnon ni.**




Bydd y ddogfen hon yn dweud wrthych chi pa **atodiadau** y mae arnoch chi angen eu lanlwytho.

## 22. Adolygu fy nghais



Mae'r rhaglen hon yn gadael i chi wirio popeth rydych chi wedi dweud wrthyn ni hyd yma. A gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen arnoch chi.



Pan fyddwch chi'n barod, pwyswch cyflwyno.



Yna bydd eich cais yn cael ei anfon aton ni.



Byddwn yn dweud wrthych chi mewn e-bost pan fydd yn ein cyrraedd ni.

## Ymwadiad




**Rydyn ni wedi ceisio gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei rhoi yn gywir. Nid ydym yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am broblemau y byddwn yn eu cael oherwydd y pethau rydyn ni wedi'u dweud wrthych chi.**

# Sut i gael mwy o help



Os oes arnoch chi eisiau trafod eich prosiect yn fwy manwl, cysylltwch â'n **Tîm Cyfalaf**:

**E-bost:** capital@arts.wales

**Gwefan:** Llenwch ffurflen ar ein gwefan.

**Twitter:** Anfonwch neges drydar aton ni @Arts_Wales_

**Gallwch chi hefyd siarad â'n Tîm Grantiau:**

**E-bost:** grants@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

Yna dewiswch 1, yna dewis 1.

# Geiriau anodd

### Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid, a physgod.

### Blaenoriaethau

Y blaenoriaethau yw'r pethau mwyaf pwysig.

### Cronfa

Mae cronfa yn arian y gall mudiadau ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.

### Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg.

### Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl y gall bawb gymryd rhan, a bod pawb yn cael cyfle teg.

### Grŵp llywio

Mae grŵp llywio yn grŵp o bobl sy'n arbenigwyr ynghylch y pethau maen nhw'n siarad amdanyn nhw. Fel pobl anabl yn siarad am anableddau.

### Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl ei bod hi'n hawdd mynd i rywle. Ac i symud o gwmpas o un lle i'r llall.